# Y PWYLLGOR ARCHWILIO

## AC(2) 09-04(min)

## COFNODION

**Dyddiad:** 4 Tachwedd 2004

**Amser:** 9.30 hyd 12.26pm

**Lleoliad:** Ystafell Bwyllgora 3 a 4, Bae Caerdydd

| **Aelodau** | Yn bresennol |
|---|---|
| Janet Davies (Cadeirydd) | Gorllewin De Cymru |
| Leighton Andrews | Rhondda |
| Mick Bates | Sir Drefaldwyn |
| Alun Cairns | Gorllewin De Cymru |
| Jeff Cuthbert | Caerffili |
| Jocelyn Davies | Dwyrain De Cymru |
| Christine Gwyther | Gorllewin Caerfyrddin a De Sir Benfro |
| Denise Idris-Jones | Conwy |
| Mark Isherwood | Gogledd Cymru |
| Val Lloyd | Dwyrain Abertawe |

**Tystion**

| | |
|---|---|
| Dr Helen Phillips | Cyfarwyddwr, Asiantaeth yr Amgylchedd Cymru |
| Liz Parkes | Pennaeth Rheoleiddio Gwastraff, Asiantaeth yr Amgylchedd |
| Nigel Reader | Cyfarwyddwr Cyllid, Asiantaeth yr Amgylchedd |
| Dr June Milligan | Pennaeth Is-adran yr Amgylchedd, Llywodraeth Cynulliad Cymru |
| Robert Williams | Pennaeth y Gangen Polisi Gwastraff, Llywodraeth Cynulliad Cymru |

**Swyddogion:**

| | |
|---|---|
| Syr John Bourn | Archwilydd Cyffredinol Cymru |
| Gillian Body | Y Swyddfa Archwilio Genedlaethol |
| Mike Usher | Y Swyddfa Archwilio Genedlaethol |
| Dave Powell | Swyddog Cydymffurfiaeth y Cynulliad |

**Yr Ysgrifenyddiaeth**

| | |
|---|---|
| Siwan Davies | Clerc y Pwyllgor |
| Liz Wilkinson | Dirprwy Glerc y Pwyllgor |

## Eitem 1: Cyflwyniadau, ymddiheuriadau, dirprwyon a datganiadau buddiant.

1.1 Croesawodd y Cadeirydd yr Aelodau, y tystion, Archwilydd Cyffredinol Cymru a'r swyddogion i'r cyfarfod.

1.2 Derbyniwyd ymddiheuriadau oddi wrth Carl Sargeant. Roedd Jeff Cuthbert yn bresennol yn ei le.

1.3 Gwnaed y datganiadau canlynol o fuddiant:

- Mewn perthynas ag eitem 2, Alun Cairns fel gwrthwynebydd i gais ar gyfer trwydded Rheoli Gwaith Atal Llygredd ar gyfer Canolfan Ynni ac Adennill Deunyddiau Crymlyn Burrows; a hefyd
- mewn perthynas ag eitem 5, Christine Gwyther fel Cadeirydd Pwyllgor Monitro Rhaglen INTERREG.

**Eitem 2: Asiantaeth yr Amgylchedd Cymru: rheoleiddio gwaith rheoli gwastraff**

2.1 Derbyniodd y Pwyllgor dystiolaeth oddi wrth Dr June Milligan, Pennaeth Is-Adran yr Amgylchedd, Llywodraeth Cynulliad Cymru, Robert Williams, Pennaeth y Gangen Polisi Gwastraff, Llywodraeth Cynulliad Cymru, Helen Phillips, Cyfarwyddwr, Asiantaeth yr Amgylchedd Cymru, Liz Parkes, Pennaeth Rheoleiddio Gwastraff, Asiantaeth yr Amgylchedd a Nigel Reader, Cyfarwyddwr Cyllid, Asiantaeth yr Amgylchedd.

2.2 Amgaeir cofnod gair-am-air yn Atodiad 1 i'r cofnodion hyn.

**Pwynt gweithredu**

**Bydd Dr June Milligan yn darparu crynodeb o'r 500 cyfleuster rheoli gwastraff newydd sy'n ofynnol, ac yn eu rhestru yn eu trefn - Dr June Milligan.**

**Bydd Dr June Milligan yn darparu nodyn esboniadol ynghylch yr oedi mewn perthynas â chwblhau adolygiad Defra o eithriadau rheoli gwastraff - Dr June Milligan.**

**Bydd y Cadeirydd yn ysgrifennu at yr Ysgrifennydd Parhaol yn gofyn am nodyn ynghylch materion cynllunio gan gynnwys cynigion Llywodraeth Cynulliad Cymru i ystyried effeithiau gwaith cynllunio ar iechyd - Y Cadeirydd, Gwasanaethau'r Pwyllgorau.**

**Eitem 3: Ymateb Llywodraeth Cynulliad Cymru i adroddiad Y Pwyllgor Archwilio 'Rheoli absenoldeb oherwydd salwch gan Ymddiriedolaethau'r GIG yng Nghymru'**

3.1 Dywedodd yr Archwilydd Cyffredinol fod Llywodraeth Cynulliad Cymru wedi derbyn holl argymhellion adroddiad y Pwyllgor ac wedi ymrwymo i adrodd yn ôl i'r Pwyllgor ynghylch yr hyn y mae’r Grp Llywio ar Reoli Salwch ac Absenoldeb wedi'i gyflawni.

3.2 Derbyniodd y Pwyllgor ymateb Llywodraeth Cynulliad Cymru.

**Eitem 4: Cofnodion y cyfarfod diwethaf**

6.1 Cymeradwyodd y Pwyllgor gofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 30 Medi 2004.

Penderfynodd y Pwyllgor wahardd y cyhoedd o weddill y cyfarfod yn unol â Rheol Sefydlog 8.24 (ii) a (vi).

**SESIWN BREIFAT**

**Eitem 5: Ystyried fersiwn drafft o adroddiad y Pwyllgor 'Cronfeydd Strwythurol Ewropeaidd: Hynt y gwaith o sicrhau'r manteision i Gymru'**

5.1 Yn amodol ar fân ddiwygiad cymeradwyodd y Pwyllgor ei adroddiad 'Cronfeydd Strwythurol Ewropeaidd: Hynt y gwaith o sicrhau'r manteision i Gymru'.

**Eitem 6: Llythyr oddi wrth Archwilydd Cyffredinol Cymru ynghylch ELWa/ Cyngor Cenedlaethol Cymru dros Addysg a Hyfforddiant**

6.1 Nododd y Pwyllgor y llythyr oddi wrth Archwilydd Cyffredinol Cymru ynghylch ELWa/Cyngor Cenedlaethol Cymru dros Addysg a Hyfforddiant. Amgaeir copi o'r llythyr hwn yn Atodiad 2 i'r cofnodion hyn. Yn unol â darpariaethau Rheolau Sefydlog 19.2 (i) a 8.24 (ii) ni chaniateir cyhoeddi un paragraff gan y byddai'n datgelu gwybodaeth bersonol am unigolion y gellir eu hadnabod.